# Junior ISA Arian Parod

Cynlluniwyd y cyfrif cynilo hwn yn benodol ar gyfer cwsmeriaid 17 oed neu iau sy'n ateb gofynion cymhwysedd Junior ISA Arian Parod. Nodwch os gwelwch yn dda nad oes modd cael at yr arian hyd nes bod y plentyn yn 18 oed (oni bai am achosion a nodir yn y rheolau ar gyfer Junior ISAs). Cynhwysir rheolau manwl ar gyfer Junior ISAs yn Rheoliadau'r Cyfrif Cynilo Unigol 1998 Rhif1870, a Rheoliadau Diwygio olynol. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr newydd sy'n byw yng Nghymru neu aelodau presennol (sy'n byw yn y Deyrnas Unedig) y mae ein cynhyrchion cynilo ar gael.

SWANSEA BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923
www.swansea-bs.co.uk

## Summary Box - Key Product Information:

| | |
|---|---|
| Enw'r Cyfrif | Junior ISA Arian Parod |
| Beth yw'r gyfradd llog? | • 4.00% GROS/AER (Amrywiol) Cyfraddau'n gywir ar 01.07.2026<br>• Mae llog yn amrywio ac fe'i cyfrifir yn ddyddiol ar y balans yn y cyfrif a'i dalu i'r cyfrif bob blwyddyn ar Fawrth 31.<br>• Ystyr AER yw Cyfradd Flynyddol Gyfatebol (Annual Equivalent Rate) ac mae'n darlunio beth fyddai'r gyfradd llog pe telid y llog a'i ychwanegu'n flynyddol.<br>• Nodwch os gwelwch yn dda fod y driniaeth o ran treth a'r gyfradd llog sy'n daladwy, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob cwsmer, ac fe allant newid yn y dyfodol.<br>• Bydd y gyfradd llog ar gyfer y cyfrif hwn yn cael ei harddangos ar ein gwefan ar www.swansea-bs.co.uk er mwyn i gwsmeriaid gael mynediad a monitro o bryd i'w gilydd yn ôl y galw. |
| A all Swansea Building Society newid y gyfradd llog? | • Gall – mae cyfraddau llog yn amrywiol, sy'n golygu y gall y gyfradd llog fynd i fyny ac i lawr, a gellir eu newid ar unrhyw adeg.<br>• Byddwn ni'n rhoi 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig drwy'r post ynghylch unrhyw newid arfaethedig i'n cyfraddau llog. Byddant hefyd yn cael eu postio ar ein gwefan, www.swansea- bs.co.uk neu gallwch ymweld ag unrhyw un o'n swyddfeydd cangen a restrir ar gefn y daflen hon, neu'u ffonio. Gellir cael manylion am gyfraddau llog cyfrifon cynilo eraill Swansea Building Society yn ein taflen 'Detholiad o Gyfrifon Cynilo' sydd ar gael drwy ymweld ag un o'n canghennau, neu'u ffonio neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Er mwyn deall pam y gallai cyfraddau gael eu gostwng, cyfeiriwch os gwelwch yn dda at ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweinyddu Cyfrifon Cynilo. |
| Beth fyddai'r amcangyfrif o falans ar ôl 12 mis? | • **Balans arfaethedig** = £1,040.00(Mae'r ffigwr hwn i bwrpasau darlunio'n unig, ac nid yw'n ystyried amgylchiadau unigol y cwsmer, yn seiliedig ar wneud adnau o £1,000 a dim adneuon ychwanegol, na chodi arian na newid i'r gyfradd llog yn ystod y cyfnod 12 mis.) |
| Sut ydw i'n agor a rheoli fy nghyfrif? | • Er mwyn agor cyfrif, rhaid i chi fod yn breswylydd yng Nghymru. Rhaid i'r person sy'n gwneud cais am JISA fod yn 16 oed neu hŷn, ac yn un o'r canlynol:<br>  • y plentyn a fydd yn dal y cyfrif<br>  • rhiant naturiol y plentyn<br>  • rhywun sydd wedi mabwysiadu'r plentyn yn gyfreithlon<br>  • person sydd wedi derbyn cyfrifoldeb rhianta gan y llysoedd<br>  • Awdurdod Lleol sy'n meddu ar gyfrifoldeb rhianta dros blentyn yn ei ofal<br><br>Ni chaiff y cyfrif fod yn gyfrif ar y cyd. Gellir agor cyfrif ar gyfer plentyn gan rywun sydd â chyfrifoldeb rhianta, hyd yn oed os yw'r plentyn dros 16 oed, ac felly'n gymwys i ymgeisio am gyfrif drostynt eu hunain. Y person sy'n ymgeisio fydd y cyswllt cofrestredig ac ef / hi fydd cyswllt y cyfrif ar gyfer holl bwrpasau datgan a chyfathrebu. Mae plentyn yn gymwys i gael JISA os, pan wneir y cais:<br>  • mae'r plentyn dan 18 oed<br>  • cafodd y plentyn ei eni ar neu ar ôl 3 Ionawr 2011 neu does ganddo ddim cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plentyn<br>  • mae'n breswylydd ac fel arfer yn preswylio yn y DU, neu'n gyflogai i Goron y DU, yn briod â, neu mewn partneriaeth sifil â chyflogai i Goron y DU, neu'n ddibynnol ar gyflogai i'r Goron.<br><br>Yn wahanol i ISA 'oedolion' pan fo modd i'r buddsoddwr agor a thanysgrifio i ISAs newydd ymhob blwyddyn dreth, dim ond hyd at ddau gyfrif JISA (nid mwy nag un o bob math) y gall plentyn ei ddal drwy gydol ei blentyndod (er y gellir dal un yr un o'r ddau fath o JISA ac un ISA arian parod 'oedolion' rhwng 16 a 18 oed). Rhaid i'r cyfrif aros dan eich perchnogaeth fuddiol chi, ac ni chaiff ei ddefnyddio fel gwarant yn erbyn unrhyw fath o fenthyciad. Rydych chi'n tanysgrifio i JISA arian parod ar gyfer y flwyddyn dreth bresennol a phob blwyddyn dreth ganlynol y byddwch chi'n tanysgrifio i'r Cyfrif. Gall unrhyw un danysgrifio i JISA ar ffurf taliad arian parod. Nid oes raid i'r tanysgrifiwr fod yn breswylydd yn y DU, ac nid oes angen iddyn nhw fod yn perthyn i'r plentyn. Rhaid i'r tanysgrifiwr ddeall fod y swm a danysgrifir yn anrheg i'r plentyn, ac yn hynny o beth na ellir ei ad-dalu i'r tanysgrifiwr os yw'r tanysgrifiwr yn newid ei feddwl yn ddiweddarach. Gallwch ddewis rhwng buddsoddi talp o arian yn flynyddol, gwneud cyfraniadau rheolaidd neu gyfrannu at y Cyfrif pan allwch fforddio gwneud.<br><br>Mae faint fyddwch chi'n ei gynilo yn y Cyfrif yn agored i chi, yn ddibynnol ar y terfynau blynyddol uchafsymiol a benderfynir gan y Llywodraeth. Penderfynir ar uchafswm y buddsoddiad y gallwch ei danysgrifio o'r Cyfrif yn y flwyddyn dreth bresennol gan reoliadau ISA sydd mewn grym ar y pryd. Mae'r terfyn hwn yn weithredol ar gyfanswm y taliadau a wnaed i'r Cyfrif yn ystod y flwyddyn, ac nid i'r balans. |

| | |
|---|---|
| Sut ydw i'n agor a rheoli fy nghyfrif? | Pan fydd plentyn yn cyrraedd 16 oed gall wneud cais am ISA arian parod 'oedolion' a gall danysgrifio i hwnnw yn ychwanegol at unrhyw danysgrifiadau a wneir i'r JISA. Felly, yn y flwyddyn dreth pan fydd y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 16, gall danysgrifio hyd at derfyn y JISA ac o'i ben-blwydd yn 16 gall, yn ychwanegol, danysgrifio hyd at 50% o gyfanswm terfyn yr ISA 'oedolion' mewn ISA arian parod. Yn ystod y flwyddyn dreth pan fydd y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 17, gall danysgrifio hyd at derfyn y JISA a thanysgrifio hyd at 50% o gyfanswm terfyn yr ISA mewn ISA arian parod. Yn ogystal, o ddechrau'r flwyddyn dreth pan fydd y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 18, gall:<br>• ddefnyddio'r cyfan o derfyn tanysgrifio'i JISA (er mai ond am ran o'r flwyddyn y delir y JISA); a<br>• thanysgrifio 50% o'i derfyn cyffredinol ISA 'oedolion' i ISA arian parod; ac o'i ben-blwydd yn 18, fuddsoddi mewn ISA stoc a chyfranddaliadau, yn unol â therfynau tanysgrifio arferol ISA 'oedolion'.<br><br>Yr isafswm buddsoddiad yw £1. Byddwn ni'n gweithredu'r Cyfrif yn unol â Rheoliadau ISA 1998 a rheoliadau diwygiol olynol. Lluniwyd y Rheoliadau hyn gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi a gallant fod yn agored i gael eu diwygio a'u newid rywbryd yn y dyfodol, Fe all hyn olygu nad yw'r driniaeth dreth ffafriol yn cael ei chynnal, o reidrwydd. Bydd y Cyfrif yn dod i ben fel JISA:<br>• pan fydd deiliad y Cyfrif yn marw;<br>• os yw deiliad y Cyfrif yn cael salwch marwol;<br>• yn achos derbyn cyfarwyddyd uniongyrchol gan CTEM (ble negyddir y JISA) neu<br>• pan fydd y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 18.<br><br>Yn ogystal, pan fydd pob buddsoddiad JISA wedi cael eu trosglwyddo, gall darparwr gau'r cyfrif balans sero sy'n weddill. Pan fydd deiliad y cyfrif yn cael ei ben-blwydd yn 18, bydd y rheolau sy'n benodol i JISA'n dod i ben. Cysylltir â'r plentyn yn fuan cyn ei ben-blwydd yn 18 i drafod dewisiadau cynilo i'r dyfodol. Os na ellir cysylltu, neu os na chyfathrebir dewis cynilo dymunol, trosglwyddir y balans i ISA presennol (os yw'n berthnasol) neu ISA 'oedolion' newydd gyda ni. Gellir ond codi arian o'r cyfrif cyn i'r plentyn droi'n 18 os oes hawliad salwch marwol a wnaed ar ran y plentyn yn cael ei gytuno. Gellir trosglwyddo'r JISA arian parod yn ei gyflawnder i gyfrif a weithredir gan weithredwr JISA cymeradwy arall ar gais deiliad y Cyfrif.<br><br>• I agor cyfrif, rhaid i'r phlentyn breswylio yng Nghymru. Galwch yn un o'n canghennau neu llenwch ffurflen gais a'i phostio atom ynghyd â siec sy'n daladwy i 'Swansea Building Society a/c (enw y plentyn)'. I gael mwy o fanylion am ein proses Adnabod edrychwch ar ein taflen Profi Eich Hunaniaeth sydd ar gael o'n swyddfeydd cangen neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Lleiafswm y buddsoddiad yw £1. Pennir uchafswm y buddsoddiad gan reoliadau ISA sydd mewn grym ar y pryd. Uchafswm y balans y gellir ei ddal ar draws yr holl gyfrifon gyda'r Gymdeithas yw £1.5m. (Nodwch fod gan rai cynhyrchion cynilo derfynau cynnyrch unigol. Gofynnwch i'n staff, ne gweler tudalennau we am fwy o wybodaeth.)<br>• Gellir adneuo arian â siec, archeb sefydlog, trosglwyddiad banc electronig, trosglwyddiad o gyfrif arall a ddelir gan y Gymdeithas (yn unol â Thelerau ac Amodau'r cyfrif hwnnw) neu arian parod (cyfyngir adneuon arian parod i £3,000 fesul cwsmer fesul dydd).<br>• Gallwch reoli eich cyfrif mewn cangen, dros e-bost, drwy'r post neu ar lein drwy neges ddiogel (yn ddibynnol ar feini prawf cymhwysedd Cyfrif Swansea Online, ar gael pan fyddwch chi'n clicio ar 'Cofrestru Nawr / Register Now' ar https://swansea-bs.co.uk/customer-support/online-registration). |
| Ydw i'n gallu codi arian? | • Gweler "Sut ydw i'n agor a rheoli fy nghyfrif" uchod. |
| Gwybodaeth Ychwanegol | • I weld y Telerau ac Amodau Cyffredinol sy'n berthnasol i'r cyfrif hwn, gweler "Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo", sydd ar gael o'n canghennau neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Mae'r Gymdeithas yn rhan o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Gellir gweld manylion y cynllun a phwy sy'n cael eu gwarchod ganddo ar www.fscs.org.uk.<br>• Fe all costau a ffioedd gwasanaeth fod yn berthnasol i'ch cyfrif. Amlinellir y rhain yn ein Toll Cynilo.<br>• Dan rai amgylchiadau, fe allwn wrthod cyfarwyddyd i weithredu cyfrif. Amlinellir yr amgylchiadau hyn yn ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo.<br>• Mae'r cyfrif at ddefnydd personol, nid ar gyfer busnes, oni bai ei fod yn un o'n cyfrifon arbennig ar gyfer sefydliadau. |

**Mae'r wybodaeth a ddarperir yn fersiwn gryno o nodweddion allweddol y cyfrif cynilo, ac ni fwriedir iddynt fod yn lle darllen y telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r cyfrif.**

SWANSEA
BUILDING SOCIETY
Established 1923

www.swansea-bs.co.uk

**Carmarthen**
13-14 Lammas Street, Carmarthen SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

**Cowbridge**
75 High Street, Cowbridge CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

**Mumbles**
496 Mumbles Road, Swansea SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

**Swansea**
1-4 Portland Street, Swansea SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk

Swansea Building Society is authorised by the Prudential Regulation Authority and regulated by the Financial Conduct Authority and the Prudential Regulation Authority. Financial Services Register Number: 206066

FSCS PROTECTED

SBS (JISAP 0823)